**BWRDD(22-05)Cofnodion**
**Preifat a Chyfrinachol**

**Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 457**
**26ain Mai 2022 – Yr Egin, 09.30**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Denise Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) – dros Zoom |
| **Aelodau Gweithredol:** | Siân Doyle | (Prif Weithredwr) – dros Zoom |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Llinos Griffin Williams | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Staff S4C oedd yn bresennol:** | Geraint Pugh | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitemau 5-8 |
| | Owen Derbyshire | (Cyfarwyddwr Digidol a Marchnata)– dros Zoom (ar gyfer eitem 13) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Llwyfannau) – dros Zoom (ar gyfer eitem 13) |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) – dros Zoom (ar gyfer eitem 9) |
| | Mali Williams | (Swyddog Cyfathrebu) (ar gyfer eitem 9) |
| | Bethan C Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

| COFNODION | | |
|---|---|---|
| | **MATERION SEFYDLOG:** | |
| 1. | **Croeso a Datganiadau Diddordeb**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C, ac yn enwedig Llinos Griffin Williams oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf fel aelod gweithredol o'r Bwrdd.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb penodol ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan hynny. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd, ac fe atgoffodd y Cadeirydd bawb o'r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant. | |
| 2. | **Adroddiad y Cadeirydd**<br>Nid oedd unrhyw beth penodol i'w adrodd mis yma. | |
| 3 | **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br>Cyflwynodd SD ei hadroddiad gan gyfeirio at y materion isod.<br><u>Papur Gwyn</u><br>Adroddodd EM fod popeth a ofynnwyd amdano gan S4C wedi'i adlewyrchu yn y Papur Gwyn, gan gynnwys sicrhau bod y Bwrdd Unedol yn cael ei sefydlu'n gyfreithiol, ac a hwyluso gweithgareddau masnachol S4C. Ychwanegodd bod bwriad cadw'r gofyn i'r BBC ddarparu 10 awr o raglenni'r wythnos i S4C oni bai bod y ddau ddarlledwr yn cytuno ar drefniadau eraill.<br><br>Adroddwyd y byddai newid mewn pwyslais o ran pwrpas darlledu cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys cydnabod pwysigrwydd darlledu mewn ieithoedd lleiafrifol am y tro cyntaf.<br><br>Nodwyd fod argaeledd ac amlygrwydd i PSBs ar SmartTVs ac ati yn hollbwysig. I'r perwyl hwn, mae llythyr wedi mynd at y Gweinidog i bwysleisio hyn. | |

Nodwyd hefyd nad ydy S4C yn cael ei chydnabod fel darlledwr ar gyfer *listed events* ar hyn o bryd, a gobeithir y bydd modd i ni gael ein cynnwys mewn perthynas â chwaraeon a digwyddiadau yn y dyfodol. Roedd yr hyn yn y Papur Gwyn yn galonogol ac yn hollbwysig i ni.

O ran rheoleiddio, nodwyd fod bwriad i SVODs fel Netflix ddod o dan god Ofcom.

Mae'r Papur Gwyn yn pwysleisio'r angen i gynnwys fod yn 'Distinctively British', ac felly bydd angen cael trafodaeth ynghylch sut mae diffinio hynny yng nghyd-destun S4C, i sicrhau fod holl ddiwylliannau o fewn y DU yn cael y sylw priodol.  Nododd EM ei bod am drafod hyn yn y cyfarfod nesaf gyda'r DCMS.

**EM**

Roedd y bwriad i werthu Channel 4 yn debyg o effeithio ar allu Llywodraeth y DU i sicrhau cymeradwyaeth cyflym i'r Mesur Cyfryngau, ac fe fynegwyd pryder y gallai hyn greu risg na fyddai'r manteision i S4C o'r hyn sydd yn y Papur Gwyn gael eu gwireddu yn y tymor byr.

Adroddwyd fod Llywodraeth y DU yn awyddus i adolygu trefniadau llywodraethu a model ariannu'r BBC. Nodwyd y gallai unrhyw newidiadau effeithio ar drefniadau cyllido S4C, ac fe fyddai'r Tîm Rheoli yn ystyried gwahanol scenarios er mwyn cyflwyno papur trafod i'r Bwrdd ar y mater. Cytunwyd fod sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol y dylai S4C dderbyn cyllid digonol a chynaliadwy yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod dymuniad i gefnogi S4C yn ariannol i'r dyfodol.

**Penderfyniad: Papur Gwyn a model ariannu'r BBC**
**Gwneud gwaith mewnol i ddeall yn union beth fyddai'n ddelfrydol i S4C, a sicrhau ein bod yn rhan o'r trafodaethau o'r cychwyn, gyda phapur trafod i'w gyflwyno i'r Bwrdd.**

**EM**

**<u>Cyfarfod Sector</u>**
Rhoddodd LLGW amlinelliad o'r hyn oedd wedi'i drafod yn ystod y cyfarfodydd sector diweddar.

Rhannwyd amlinelliad o'r strategaeth newydd a'r dulliau gweithredu newydd gyda'r sector, gan nodi ein hamcanion ar gyfer cyd-gynyrchiadau, ac ail-ddiffinio S4C fel brand cynhwysfawr i bawb. Byddai'r ail-strwythuro a'r cynllunio mewnol yn S4C yn cymryd amser i'w cwblhau, ond byddai'r gwaith hwn yn ein caniatáu i weithio'n dda gyda'r sector ar gynnal safonau a thalent o flaen a thu ôl y camera.

Nodwyd fod y sector am i ni ddangos parch a'r angerdd i greu pethau i'r gynulleidfa graidd, ond peidio meddwl nad ydy rheini am ddod hefo ni i'r strategaeth newydd.

Amlygwyd rhai o'r heriau o bersbectif y sector rydym eisoes yn ymwybodol ohonynt, gan gynnwys hyrwyddo, marchnata ac yn y blaen, ac fe roddwyd sicrwydd fod cynlluniau eisoes ar y gweill i newid y broses gomisiynu, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw amlygrwydd i'r cynnwys o'r cychwyn cyntaf.

Roedd y sector yn awyddus i gael gwybod mwy am ein strategaeth ar gyfer comedi a drama ymysg pethau eraill.  Yn sgil hynny, bwriadwn gynnal cyfarfodydd aml gyda'r sector er mwyn cael trafodaethau ehangach am bynciau penodol megis personas, cynulleidfa darged ac ati. Rydym hefyd am gael arbenigwyr i weithio gyda'r sector i'w huwch-sgilio.

Nododd SD fod holiadur yn cael ei rannu gyda'r sector yn gofyn am adborth o'r cyfarfodydd.

Holodd DL tybed oes ystyriaeth wedi'i roi i greu cytundebau uniongyrchol gyda'n talentau ar y sgrîn, fydd yn sicrhau fod deunydd S4C yn gallu galw arnynt i helpu hyrwyddo'r cynnwys. Cytunodd SD ei bod yn bwysig gwneud hyn, a bod trafodaethau ar y gweill i gael llysgenhadon o blith ein talent i helpu ni efo cynnwys arbennig, megis

| | | |
|---|---|---|
| | dysgwyr, chwaraeon, newyddiaduriaeth, amrywiaeth ac yn y blaen, denu pobl newydd mewn i'r sianel.<br><br>Tynnwyd sylw Bwrdd i'r sleidiau a gyflwynwyd i'r sector, a nodwyd fod angen cywiro'r pwrpas i gyd-fynd â'r hyn gytunwyd yn wreiddiol gan y Bwrdd. Yn ogystal, roedd angen gwneud yn siŵr fod yr iaith a'r ramadeg mewn unrhyw gyflwyniad yn gywir yn y dyfodol.<br><br>**Penderfyniad: Cyflwyniad i'r Sector**<br>**Y dylid defnyddio'r pwrpas a gymeradwywyd gan y Bwrdd fel rhan o Strategaeth 2022 ar gyfer unrhyw gyflwyniadau yn y dyfodol, yn ogystal â sicrhau fod yr iaith a'r ramadeg yn gywir ar unrhyw gyflwyniadau cyhoeddus.** | **SD** |
| | **<u>Pêl Droed</u>**<br>Adroddwyd bod cynllun i droi y sianel yn goch o amgylch y gêm pêl droed Cymru yn erbyn yr Wcráin ar 05 Mehefin, er mwyn hawlio'r moment cenedlaethol. Ymhellach, roedd bwriad i drefnu gwahanol gynnwys yn ystod yr wythnos cyn y gêm, gan gynnwys ail-becynnu eitemau ar y cyfryngau cymdeithasol a YouTube.<br><br>Adroddwyd i'r Wifren Gwylwyr dderbyn sawl nodyn o gefnogaeth i'n cyhoeddiad y bydd S4C yn darlledu gemau pêl droed Cymru tan 2024. Dangosodd Aelodau'r Bwrdd eu gwerthfawrogiad i waith Sue Butler, wrth iddi sicrhau hawliau'r pêl droed hyn.<br><br>Mae Sue yn parhau i drafod gyda NENT a ViaCom o ran yr hawliau o 2024 ymlaen. Bydd y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig yn trafod y pwnc ym mis Gorffennaf, ac mae S4C yn bwriadu cyfrannu tystiolaeth.<br><br>**Penderfyniad: Pêl Droed**<br>**Y byddai'r Bwrdd ddanfon neges i ddiolch i Sue Butler am ei gwaith diflino wrth sicrhau'r hawliau pêl droed yn ddiweddar.**<br><br>**<u>Cynllun Cyhoeddi</u>**<br>Roedd cynllun cyhoeddi yn cael ei lunio, yng nghyd-destun y strwythur newydd, a bydd Geraint Evans yn dod i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf i gyflwyno'r gwaith, ynghyd a chyfle i ddangos y ffurflenni comisiynu newydd.<br><br>**<u>Digwyddiadau</u>**<br>Nodwyd fod sawl digwyddiad dros yr wythnosau nesaf, gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd, a'r Gynhadledd Cyfryngau Cymru.<br><br>Adroddwyd fod y Tîm Rheoli hefyd wrthi'n cynllunio'r amserlen ar gyfer blaenoriaethau cynnwys ar gyfer y cyfnod tan ddiwedd y flwyddyn galendr, ynghyd ag amserlen ar gyfer nodi pen-blwydd S4C yn 40.<br><br>**Penderfyniad: Cynllun dathlu Penblwydd S4C yn 40**<br>**Bydd cynllun cynhwysfawr yn cael ei lunio o ran dathliadau penblwydd S4C, a bydd y cynllun yn cael ei rannu efo'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.**<br><br>**<u>Panel Darlledu</u>**<br>Adroddwyd fod Llywodraeth Cymru yn mynd i gyhoeddi aelodaeth eu Panel Darlledu ar y 14eg o Fehefin. | **GP/BCW**<br><br>**GE**<br><br>**SD** |
| 4. | **Mesuryddion – Kantar**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad cychwynnol gan gwmni Kantar ar ddatblygu ffyrdd newydd o fesur llwyddiant cynnwys S4C. Byddai ymgais i ddarganfod beth yw ein perthynas gyda'r gynulleidfa a sut mae cryfhau hynny a gwella'r perfformiad.<br><br>Y bwriad fydd creu mesuryddion wythnosol a misol ar ein perfformiad. Byddwn hefyd yn tracio i weld os ydy gwylwyr penodol (ee, y rhai sy'n gwylio pêl droed) yn aros efo'r sianel i wylio cynnwys arall. Croesawodd CJ y cyfeiriad yma, ac awgrymodd y gellid mynd ymhellach drwy ddefnyddio *promoters* i'n cynnwys. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cafwyd trafodaeth am ddefnyddioldeb BARB, ond byddai'n rhaid gwneud gwaith manwl i geisio darganfod y mesuryddion gorau ar ein cyfer, o bosib drwy gyfuniad o sawl mesur drwy iPlayer ac yn y blaen. Trafodwyd y posibilrwydd o gydweithio gyda'r BBC ar y mesuryddion pe byddai hynny'n briodol.<br><br>Nododd SD y byddai'n gweithio ymhellach gyda Kantar i ddatblygu'r mesuryddion arfaethedig ymhellach. Byddai diweddariad ar y gwaith yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf, gyda'r bwriad o gyflwyno'r mesuryddion terfynol i'w cymeradwyo ym mis Medi.<br><br>**Penderfyniad: Datblygu Mesuryddion**<br>**Y byddai Kantar yn parhau i ddatblygu'r mesuryddion, gyda'r bwriad o gyflwyno'r rhai terfynol i'w cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Medi.** | **SD** |
| 5. | **Adroddiad Ariannol – Chwarter 4**<br><br>Cyflwynodd ShW Adroddiad Ariannol Chwarter 4 ac amlinellodd y prif bwyntiau.<br><br>Eleni mae rhai cwmnïau cynhyrchu wedi anfonebu ynghynt na'r llynedd ac felly mae'r arian parod yn ein cyfrifon yn ymddangos yn is o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. | |
| 6. | **Tybiaeth Cwmni Gweithredol**<br><br>Cyflwynodd ShW adroddiad oedd yn cynnig sicrwydd i'r Bwrdd y gellid llunio'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021–22 ar sail cwmni gweithredol.<br><br>Cytunwyd bod cadarnhad o setliad ffi'r drwydded tan ddiwedd Mawrth 2028 yn rhoi cryn sicrwydd ariannol i S4C<br><br>**Penderfyniad: Tybiaeth Cwmni Gweithredol**<br>**I gyfrifo ar sail cwmni gweithredol yn y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021–22.** | **ShW** |
| 7. | **Archwaeth Risg**<br><br>Yn dilyn y cyflwyniad ar ddatblygu matrics a datganiad archwaeth risg S4C yn ystod cwrdd i ffwrdd y Bwrdd ar 27 Ebrill 2022, roedd y Tîm Rheoli wedi drafftio matrics cychwynnol i'w ystyried.<br><br>Roedd CJ yn awyddus i gael sesiwn i drafod y gofrestr yma'n fanylach, yn arbennig mewn perthynas ag elfennau megis arloesedd.<br><br>Esboniodd SD y byddai'n gwerthfawrogi pe byddai'r Bwrdd yn cael trafodaeth mewn manylder ar y matrics archwaeth risg. Byddai angen sicrhau bod y risgiau yn cyd-fynd efo'r strategaeth corfforaethol ehangach, ac adnabod lle yn union yr hoffem fod yn y dyfodol.<br><br>Gofynnodd RhW os byddai modd derbyn esiamplau ddatganiadau a matricsau cyrff cyhoeddus eraill er mwyn cael cymhariaeth.<br><br>**Penderfyniad: Archwaeth Risg**<br>**I neilltuo amser i gael trafodaeth ehangach yng nghyfarfod nesa'r Bwrdd, i gytuno ar archwaeth risg y Bwrdd, er mwyn i'r Tîm Rheoli allu paratoi fersiwn terfynol o'r matrics a'r datganiad archwaeth risg erbyn cyfarfod Medi.** | **ShW / GP** |
| 8. | **Perfformiad Gweithgareddau Masnachol**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad ariannol diwedd blwyddyn ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C. Amlinellodd ShW rhai o'r prif bwyntiau.<br><br>Nodwyd fod y twf cyfalaf yn llai eleni, gyda gwerthiannau hysbysebu i lawr oherwydd Covid. Nodwyd mai buddsoddiadau Sarasin oedd y prif lif incwm. | |

| | | |
|---|---|---|
| 9. | **Adroddiad Safonau'r Gymraeg**<br><br>Roedd angen i'r Bwrdd gymeradwyo adroddiad blynyddol oedd yn amlinellu sut roedd S4C yn cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r sefydliad.<br><br>Roedd adroddiad ar gyfer 2021–22 wedi ei ddrafftio, ac fe ystyriwyd y testun gan y Bwrdd.<br><br>Awgrymodd DL y dylen ni gyflwyno ein datganiad pwrpas ar y ddogfen yma, ac ar unrhyw ddogfen arall o eiddo S4C.<br><br>Holodd RhW a oedd gormod o fanylder yn y rhagair i'r Adroddiad. Cytunwyd bod yr hyn oedd yno'n helpu gosod y cyd-destun perthnasol<br><br>**Penderfyniad: Adroddiad Safonau'r Gymraeg**<br>**I gymeradwyo'r Adroddiad, cyhyd â bod datganiad yn cael ei ychwanegu ar y cychwyn sy'n crynhoi pwrpas S4C.** | **CHR/MW** |
| 10. | **Adolygiad o Bolisi Rhaglenni 2021–22.**<br><br>Cyflwynwyd yr Adolygiad o Bolisi Rhaglenni. Roedd eisoes wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Cynnwys, oedd yn argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Adolygiad i'w gyhoeddi.<br><br>Nodwyd mai ychydig iawn o sylw yn cael ei roi i ddysgwyr yn y drafft. Nodwyd y byddai angen datrys hyn wrth lunio'r Adolygiad nesaf<br><br>**Penderfyniad: Adolygiad o Bolisi Rhaglenni 2020-21**<br>**Cymeradwywyd yr Adolygiad o Bolisi Rhaglenni, i'w gyhoeddi yn unol â gofynion Ofcom.** | **GP** |
| 11. | **Crynodeb o asesiadau perfformiad Aelodau'r Bwrdd**<br><br>Adroddodd RhW ei fod wedi cynnal sgyrsiau gyda'r aelodau anweithredol ond un fel rhan o'u hasesiadau blynyddol. Byddai'r sgwrs olaf yn digwydd maes o law.<br><br>Roedd CJ yn casglu adborth ar gyfraniad y Cadeirydd dros y flwyddyn ddiwethaf, i'w rannu gyda'r DCMS i'w ystyried fel rhan o'u proses i arfarnu'r Cadeirydd. | |
| 12 | **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion mis Mawrth, ac ni chynigwyd unrhyw newidiadau neu gywiriadau.<br>Cymeradwywyd y cofnodion. | |
| 13. | **Diweddariad ar blatfformau, amlygrwydd, a datblygu Clic 2.0**<br><br>Cyflwynodd OD ddiweddariad o ran y platfformau a'r datblygiadau mewn perthynas â Clic dros y misoedd diwethaf. Nodwyd mai'r uchelgais yw "darparu dy gynnwys di ar dy lwyfan di", yn unol â Strategaeth 2022.<br><br>Cyflwynodd AR ddiweddariad o ran Clic a'r gwaith cefndirol sydd yn digwydd i wella'r gwasanaeth. Eglurwyd fod dwy elfen i'r gwaith, sef UI (User Interface) ac UX (User Experience), ac mae dau aelod o staff yn arwain ar y gwahanol elfennau. Roedd gwaith pellach yn cael ei wneud o ran recriwtio aelodau ychwanegol i'r tîm hwn, ond nodwyd bod tipyn o gystadleuaeth am unigolion â'r sgiliau hyn yn y farchnad swyddi.<br><br>Un o'r prif flaenoriaethau yw ceisio argaeledd S4C ar Smart TVs. Mae rhai llwyfannau llai pwysig sy'n amlygu'u hunain megis, Android TV, LG, Apple TV, NowTV, Roku yn ogystal â rhai blaenllaw fel Sky a Virgin.<br><br>Nodwyd bod angen trafodaeth eang am sut y bydd cefnogi'r systemau newydd hyn yn y dyfodol. Wedi i gwmni allanol oedd yn ein cefnogi ar hyn ddod i ben, mae rhywfaint o | |

| | | |
|---|---|---|
| | gynyddu adnoddau mewnol wedi digwydd. Serch hynny, roedd yn awr angen datblygu cynllun hirdymor.<br><br>**Penderfyniad: Cytundebau Trydydd Parti**<br>**Holwyd am adroddiad yn amlinellu unrhyw drydydd parti lle mae S4C yn llwyr-ddibynnol arnynt i weithredu ar ein rhan.**<br>**Byddai angen sicrhau fod y gofrestr risg yn cynnwys risgiau perthnasol pan fo S4C yn llwyr-ddibynnol ar drydydd parti i gynnal gwasanaethau.**<br><br>Holwyd os ydy Clic yn berthnasol bellach, o ystyried fod mwy o ddefnydd ar iPlayer. Nododd SD fod trafodaethau eang wedi digwydd o ran hyn ac nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto. Mae rhinweddau i Clic ac iPlayer, a byddai angen sicrhau ein bod yn cael yr hyn a ofynnir amdano gan iPlayer cyn ystyried dyfodol Clic.<br><br>Nododd LLGW fod gofynion siaradwyr Cymraeg yn wahanol i ofynion gwylwyr yr iPlayer. Esboniwyd hefyd fod hawliau chwaraeon yn gallu bod yn wahanol rhwng Clic ac iPlayer, lle bydd hawl gan Clic i ddarlledu mewn gwledydd gwahanol i iPlayer.<br><br>Diolchwyd i AR ac OD am eu cyflwyniad. | **AR/OD/ RhD**<br><br>**ShW** |
| 14. | **Cofnodion y Pwyllgor Cynnwys**<br>Cyflwynwyd drafft o gofnodion o'r Pwyllgor Cynnwys gynhaliwyd ar y 12fed o Fai. | |
| 15. | **Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Cyflwynwyd y pwyntiau gweithredu diweddaraf, ond nododd GP nad oedd yr adroddiad yn adlewyrchu beth drafodwyd yn llawn oherwydd i rai papurau Bwrdd gyrraedd yn hwyr. | |
| 16. | **Penderfyniadau rhwng cyfarfodydd**<br>Cafwyd dau benderfyniad yn ystod y cyfnod:<br>Cymeradwywyd y Rheolau Sefydlog diwygiedig, ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill, 2022.<br>Cymeradwywyd newidiadau i aelodaeth y pwyllgorau. Nodwyd y byddai angen edrych ar yr aelodaeth eto, unwaith ag y bydd aelodau anweithredol newydd yn ymuno â'r Bwrdd. | |
| 17 | **Unrhyw fater arall**<br><br>Yn ei chyfarfod Bwrdd olaf, diolchodd y Cadeirydd i Anita George am ei chyfraniad gwerthfawr i waith y Bwrdd dros y pedair blynedd diwethaf, yn benodol am ei gwaith diflino yn ystod y cyfnod cydleoli, ac am ei chyngor doeth a dibynadwy drwy gyfnod eithaf anodd.<br>Diolchodd AG am y cyfle i fod yn rhan o'r holl ddatblygiadau, a theimlai'n fraint gael bod yn rhan o'r Bwrdd. Bydd yn gwylio o'r tu allan gyda diddordeb. | |

**Rhodri Williams, Cadeirydd y Bwrdd** **Dyddiad**

**Dyddiad cyfarfod nesaf y Bwrdd:**
**8fed Gorffennaf, 2022 yn Yr Egin**